Carfan y Sbectrwm Awtistig\Cyfathrebu

Teitl y Cwrs	Disgrifiad	Dull Cyflwyno	Cynulleidfa darged	Dyddiadau'r Gweithdai		
				Tymor yr Hydref	Tymor y Gwanwyn	Tymor yr Haf
Strategaethau i ddisgyblion sydd ag awtistiaeth/pryder cymdeithasol i'w defnyddio yn ystod amser egwyl a chinio.	Cyflwyniad byr i strategaethau ymarferol a fydd yn helpu i wella lefelau cyfathrebu, ymddygiad a phryder yn ystod amser egwyl ac amser cinio.	MS Teams	Cynradd Uwchradd	28/09/2022 9:30 - 11:30	22/03/2023 9:30 - 11:30	12/07/2023 9:30 - 11:30
Rhoi cymorth i ddisgyblion gydag ADY i ddatblygu rhesymu geiriol (Model Iaith Wag)	Cyflwyniad ar sut i ddefnyddio'r Model Iaith Wag i nodi ar ba lefel mae'r disgybl, a sut i gynorthwyo datblygiad rhesymu geiriol trwy weithgareddau ymarferol.	MS Teams	Cynradd Uwchradd	17/10/2022 9:30 - 11:00		09/06/2023 9:30 - 11:00
Strategaethau Cyfathrebu Cynnar	Darparu strategaethau ymarferol a fydd yn helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu cynnar. Mae'r rhain yn cynnwys strategaethau ymgysylltu, Gwrthrychau Cyfeirio, PECS (System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau) a chymorth gweledol.	Wyneb yn wyneb	Cyfnod Sylfaen	12/10/2022 9:30-11:30	01/02/2023 9:30 - 11:30	10/05/2023 9:30 - 11:30
Cymorth Lleferydd ac Iaith Elkan ar gyfer plant 5-11 oed	Cwrs hyfforddi ymarferol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd i'w galluogi nhw i ddatblygu sgiliau lleferydd ac iaith POB plentyn, ond yn enwedig y rhai ag anawsterau lleferydd ac iaith.	MS Teams	Cynradd	30/09/2022 Cwrs 4 wythnos		
Cymorth Lleferydd ac Iaith Elkan ar gyfer plant 11-16 oed	Cwrs hyfforddi ymarferol i staff sy'n gweithio mewn ysgolion uwchradd i ddarparu dulliau a strategaethau newydd i'w helpu nhw i gynyddu potensial lleferydd, iaith a chyfathrebu pobl ifainc a gwahaniaethu'r cwricwlwm yn effeithiol.	MS Teams	Uwchradd		I'w gadarnhau	

Cymorth Lleferydd ac Iaith Elkan ar gyfer plant 3-5 oed	Bydd y cwrs hyfforddi ymarferol yma'n: Codi'ch hyder ac yn adeiladu ar eich sgiliau i gynorthwyo â datblygiad iaith a chyfathrebu POB plentyn rhwng 3 a 5 oed, ond yn enwedig y rhai ag anawsterau lleferydd ac iaith. Rhoi cyngor a strategaethau ymarferol i chi i helpu'r rhieni a'r teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw. Sicrhau bod gan leoliadau weithlu medrus iawn i helpu i gau'r bwlch a gwella cyfleoedd bywyd plant ifanc. Rhoi dyfarniad lefel 2 neu 3 dilys i chi.	MS Teams	Cyfnod Sylfaen			25/05/2023 hyd at 20/06/2023 13:00 - 15:00 Cwrs 8 wythnos
Cymorth Lleferydd ac Iaith Elkan ar gyfer Pobl Ifainc sy'n Agored i Niwed	Cwrs hyfforddi ymarferol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn sefydliadau troseddau ieuenctid, carchardai a sefyllfaoedd bregus. Bydd yr hyfforddiant yn rhoi cyngor a strategaethau arloesol i helpu pobl ifainc i wireddu potensial eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu a chael mynediad mwy effeithiol i'r cwricwlwm.	MS Teams	Cynradd Uwchradd		I'w gadarnhau	

Cymorth Cyfathrebu Elkan ar gyfer Disgyblion Llafar ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig	Mae'r cwrs hyfforddi newydd, ymarferol yma (sydd newydd ei ddiweddaru), wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer staff sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r hyfforddiant yn galluogi staff i ddatblygu sgiliau cyfathrebu disgyblion ag awtistiaeth a thrwy hynny, gwella'u dysgu, eu rhyngweithio cymdeithasol a lleihau ymddygiad negyddol.	MS Teams	Cynradd Uwchradd			26/04/2023 hyd at 21/06/2023 13:00 - 15:00 Cwrs 8 wythnos
Awtistiaeth a Merched	Mae'r hyfforddiant yma'n rhoi trosolwg i athrawon a staff cynorthwyol o sut i adnabod a chefnogi anghenion y merched sy'n fwy abl ac sy'n cyflwyno anghenion cyfathrebu cymdeithasol sy ddim yn ddwys.	MS Teams	Cynradd Uwchradd	24/11/2022 9:30 -11:30	08/02/2023 9:30 - 11:30	09/05/2023 9:30 - 11:30
Cyflwyniad i Ddatblygiad Iaith Fynegiadol	Sesiwn hyfforddi sy'n cyflwyno gweithgareddau hynod ysgogol ac ymgysylltiol i athrawon a CCD. Trosolwg o Anawsterau Iaith Fynegiadol a sut i'w cynorthwyo. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am semanteg lliwgar, modelu, dilyniannu a sgiliau naratif.	MS Teams	Cynradd Uwchradd	24/10/2022 9:30 -16:00		16/06/2023 09:30 - 16:00
Datblygu sgiliau gwrando, sylw a rhyngweithio disgyblion ag ADY	Mae'r cwrs yma'n rhoi trosolwg o bwysigrwydd cyfathrebu di-eiriau, sut mae sgiliau gwrando a sylw yn datblygu, nodi ar ba gam mae'r disgybl a sut i'w gynorthwyo â gweithgareddau ymarferol yn y dosbarth. Mae'r cwrs hefyd yn cynnwys strategaethau i ddatblygu sgiliau sgwrsio rhwng yr oedolyn a'r disgyblion, neu rhwng y disgyblion.	MS Teams	Cynradd Uwchradd	07/11/2022 9:30 - 11:00		05/05/2023 9:30 - 11:00
Trosolwg o weithgareddau denu sylw i blant ag awtistiaeth	Darparu sesiynau o weithgareddau deniadol ac ysgogol iawn i athrawon a staff cymorth i blant ar y Sbectrwm Awtistig neu sydd ag anawsterau lleferydd ac iaith.	MS Teams	Cyfnod Sylfaen	07/12/2022 9:30 - 12:00	15/03/2023 9:30 - 12:00	21/06/2023 9:30 - 12:00

Trosolwg o Therapi Lego	Bydd yr hyfforddiant yn rhoi trosolwg i athrawon a staff cynnal o ymyrraeth therapi Lego sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau chwarae cydweithredol. Caiff yr ymyrraeth yma ei defnyddio gyda phlant sydd ag Awtistiaeth neu anawsterau rhyngweithio cymdeithasol. Mae therapi Lego yn gweithio ar feysydd allweddol rhyngweithio cymdeithasol, megis cymryd tro, gwrando, mentro, cyswllt llygad, datrys problemau a rhannu. Mae hefyd yn gweithio ar gysyniadau iaith megis maint, arddodiaid a lliwiau.	MS Teams	Cynradd Uwchradd	09/11/2022 9:30 - 12:00	08/03/2023 1:00 - 3:30	07/06/2023 9:30 - 12.00
Trosolwg o Therapi seiliedig ar Lego – cyfrwng Cymraeg		MS Teams	Cynradd Uwchradd	09/11/2022 1:00 - 3:30	08/03/2023 9:30 - 12:00	07/06/2023 1:00 - 3:30
Strategaethau cyfathrebu amlsynhwyraidd ar gyfer plant di-eiriau	Diwrnod llawn o hyfforddiant sy’n darparu gweithgareddau amlsynhwyraidd strwythuredig ac ysgogol iawn i athrawon a chynorthwywyr addysgu. Bydd modd defnyddio'r gweithgareddau ym ar waith gyda disgyblion ifanc sydd ddim â sgiliau siarad ac sydd ag anawsterau dysgu difrifol a chymhleth, gan gynnwys disgyblion ifanc ag awtistiaeth/anghenion cyfathrebu cymdeithasol sylweddol. Nod y cwrs yw helpu i ddatblygu cysylltiadau rhwng yr oedolyn a’r disgybl ac mae’n addas ar gyfer staff y blynyddoedd cynnar a’r cyfnod sylfaen.	Wyneb yn wyneb	Cynradd Uwchradd	05/10/2022 9:30 - 3:00		05/07/2023 9:30 - 3:00
Trosolwg o WellComm	Mae'r hyfforddiant yma'n trafod y rhaglen WellComm a sut i weithredu strategaethau o'r Llyfr Syniadau Mawr	MS Teams	Cyfnod Sylfaen	23/09/2022 9:30 - 11:00		23/06/2023 9:30 - 11:00
Cynllunio ar gyfer pontio'n llwyddiannus o CA2 i CA3	Paratoi ar gyfer y cyfnod pontio trwy ddarparu strategaethau i gynorthwyo'r disgybl a'r rhiant trwy'r cyfnod pontio.	MS Teams	Uwchradd			21/04/2023 9:30 - 11:00
Cynllunio ar gyfer pontio'n llwyddiannus o CA2 i CA3 – Cyfrwng Cymraeg		MS Teams	Uwchradd			21/04/2023 1:30 - 3:00

Hyrwyddo Datblygiad Geirfa yn yr Ystafell Ddosbarth ar gyfer Disgyblion sydd ag ADY (mapiau meddwl, mapiau geiriau ayb.)	Strategaethau i ddatblygu geirfa yn yr ystafell ddosbarth, gan nodi geiriau haen a sut i helpu disgyblion i ddysgu geirfa allweddol. Strategaethau i'w defnyddio gyda disgyblion ag ADY.	MS Teams	Cynradd Uwchradd	14/11/2022 9:30-11:00		28/04/2023 9:30 - 11:00
Anawsterau a heriau synhwyraidd disgyblion ag awtistiaeth	Darparu trosolwg o'r anawsterau synhwyraidd a'r heriau y mae rhaid i bobl ag awtistiaeth eu goresgyn yn ddyddiol. Pethau i fod yn effro iddyn nhw, a rhai strategaethau defnyddiol i'w hystyried i gynorthwyo disgyblion.	Wyneb yn wyneb	Cynradd Uwchradd	15/11/2022 1:00 - 3:30		27/04/2023 9:30 -12:00
Straeon Cymdeithasol	Mae Straeon Cymdeithasol yn dechneg ddefnyddiol sy'n gymorth i blant ag awtistiaeth ac anghenion cyfathrebu cymdeithasol. Mae'n dechneg sy'n eu paratoi nhw ar gyfer sefyllfaoedd neu brofiadau newydd.	MS Teams	Cynradd Uwchradd	22/11/2022 9:30 - 11:00		12/05/2023 9:30 - 11:00
Bod yn gefn i ddisgyblion ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn yr Ysgol Uwchradd	Darparu trosolwg o awtistiaeth a strategaethau ymarferol y byddai modd iddyn nhw fod o gymorth i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3. Gan gynnwys defnyddio cymorth gweledol sy'n briodol ar gyfer ysgolion uwchradd, straeon cymdeithasol, grwpiau cymdeithasol a strategaethau synhwyraidd.	MS Teams	Uwchradd	21/11/2022 9:30 - 12:00		
Deall a chynnal ymddygiad disgyblion ar y Sbectrwm Awtistig	Rhoi trosolwg i athrawon a staff cymorth ar pam bod modd i ymddygiadau ddigwydd. Yr heriau synhwyraidd a chyfathrebu y mae rhaid i ddisgyblion eu goresgyn, ac ystyriaethau ar y ffordd orau o ddefnyddio strategaethau i atal pethau rhag mynd yn waeth, er mwyn rhoi cymorth i ddisgyblion sy'n ymddwyn mewn ffordd negyddol neu heriol.	MS Teams	Cynradd Uwchradd	16/11/2022 9:30 - 12:00		24/5/2023 9:30 - 12:00
Deall a chynnal ymddygiad disgyblion ar y Sbectrwm Awtistig – Cyfrwng Cymraeg		MS Teams	Cynradd Uwchradd		01/03/2023 9:30 - 12:00	

Darpariaeth Gyffredinol i helpu Cyfathrebu Cymdeithasol ac Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig	Mae Darpariaeth Gyffredinol mewn ysgolion yn cynnwys addysgu dosbarth cyfan, gwahaniaethu'n effeithiol, cynnal gwaith grŵp cydweithredol, ymyriadau grwpiau unigol a grwpiau bach, a gwneud addasiadau priodol a rhesymol i alluogi disgyblion i gael mynediad i amgylchedd, cwricwlwm a chyfleusterau'r ysgol. Bydd yr hyfforddiant yma'n cynnig strategaethau a chyngor sylfaenol i helpu i ddiwallu anghenion disgyblion ag anghenion cyfathrebu cymdeithasol ac Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn rhan o ddarpariaeth gyffredinol ysgolion.	MS Teams	Cynradd Uwchradd	19/10/2022 9:30 - 11:30	18/01/2023 9:30 - 11:30	03/05/2023 9:30 - 11:30
Darpariaeth Gyffredinol i helpu Cyfathrebu Cymdeithasol ac Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig – Cyfrwng Cymraeg		MS Teams	Cynradd Uwchradd	19/10/2022 1:00 - 3:00	18/01/2023 1:00 - 3:00	03/05/2023 1:00 - 3:00
Cyfathrebu Gweledol –cymorth a strategaethau	Darparu adnoddau a strategaethau i staff a chynorthwywyr dosbarth y mae modd eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth i helpu a hyrwyddo cyfathrebu a dealltwriaeth disgyblion sydd ag awtistiaeth ac anawsterau lleferydd ac iaith.	MS Teams	Cynradd Uwchradd	30/11/2022 9:30 - 11:30	21/04/2023 9:30 - 11:30	30/06/2023 9:30 - 11:30
Cynorthwyo â lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn Ysgolion Uwchradd.	Mae'r cwrs yma'n nodi anghenion disgyblion ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn ysgolion uwchradd, a sut y mae'n bosibl bod yr anawsterau hyn wedi bod yn gudd yn yr ysgol gynradd. Mae'n trafod sut i gynorthwyo'r disgybl gyda phob pwnc ar y cwricwlwm, a sut i ddatblygu sgiliau cyfathrebu gan edrych tua CA4 a'i fywyd ar ôl gorffen ysgol.	MS Teams	Uwchradd	08/11/2022 9:30 - 12:00		